

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd Talgai, Llandygai
ar nos Iau 14 Chwefror, 2019 am 1900**

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Myfanwy Jones

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Kevin Williams

Y Cynghorydd Dafydd Jones

Cyngor Gwynedd

Y Cynghorydd Dafydd Meurig

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Evan Jones.

2. Ymddiheuriadau- dim, pawb yn bresennol.

3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr, 2019, yn ddarostyngedig i Eitem 6- e-bost gan Simon Roberts, Peiriannydd Cynorthwyol Cyngor Gwynedd. Nid oedd y Cyngor wedi cytuno mewn egwyddor.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

Yr hen A55 - problem gyda goryrru ar y ffordd sydd yn ardal 30mya. Wedi cael ymateb gan yr Heddlu yn holi am fwy o wybodaeth ar y mater ac eu bod yn fodlon monitro'r safle. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

Eglwys Llan -Y coed wedi cael eu trin, ac hefyd ein contractwr wedi gwneud gwaith da o glirio'r gor-dyfiant.

Crymlyn, Aber - problem gyda lori fawr wedi dod lawr y ffordd ac wedi achosi difrod i'r bwthyn ac wedi bod yn sownd yno dros nos. Y wal dal i ddisgwyl cael sylw, a'r ffordd angen ei lanhau. Y Clerc i holi am ddiweddariad ar y wal ac hefyd am yr arwydd.

Lôn Goed – y ffos ar hyd y ffordd angen sylw. Cyngor Gwynedd am drefnu archwiliad o'r safle a chodi archeb ar gyfer unrhyw waith angenrheidiol. Y gwaith heb ei wneud hyd yn hyn. Y ffordd angen ei ysgubo hefyd, y llefydd pasio yn enwedig.

Gwrychoedd ar hyd ffordd Coetmor – gwrychoedd ar hyd y ffordd ger fynwent Coetmor angen eu torri. Cyngor Gwynedd i archwilio'r cloddiau a chysylltu gyda perchnogion y tir ynglŷn ag unrhyw dyfiant sydd angen ei docio yn ôl. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

Airfields of Britain Conservation Trust - y plac coffa wedi ei osod. Bydd angen trefnu digwyddiad i ddathlu'r plac gyda ysgolion lleol yn y Gwanwyn.

Allt Ty'n Hendre – twll mawr yn y ffordd, pryderon bydd rhywun yn mynd i'r ffos wrth drïo osgoi'r twll. Y twll wedi ei lenwi gan Gyngor Gwynedd., ond y contractwyr wedi gadael llanast ar eu holau. Y Clerc i anfon e-bost i gwyno.

Ffordd wrth Wern Bach – twll wedi ymddangos yn y lôn unwaith eto. Y twll dal yno, y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am ddiweddariad. Y Cyng. Dafydd Meurig am wneud ymholiadau.

Dyraniad o'r mynydd – cais wedi ei dderbyn gan I Hughes Morris. Angen mwy o wybodaeth.

Diffibriliwr – pwyllgor Capel Bethlehem ddim yn hoff o'r syniad o roi'r peiriant wrth y fynwent. Angen holi'r gymuned am unrhyw syniad ble i'w leoli.

Giât mochyn – adroddwyd bod angen adnewyddu'r giatiau ar lwybrau yn Llan. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am rai newydd. Angen holi am ddiweddariad.

Palmant o Tal y bont i 'Gypsy Corner' – adroddwyd bod llawer o ddail ar y palmant. Y Clerc i ofyn wrth Cyngor Gwynedd i'w clirio. Rhywfaint o'r palmant wedi ei wneud, ond ddim y palmant o 'Gypsy Corner' fyny at Eglwys Maes y Groes.

5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

A Evans-gosod plac	£65.00
Swyddfa Archwilio Cymru	£285.60
Llais Ogwan	£18.00
Tir a Choed	£400.00

6. Gohebiaeth

Cyflwynwyd- e-bost gan Rhian Wyn Williams, Cyngor Gwynedd – Adolygiad Cludiant Cyhoeddus. Angen anfon unrhyw sylwadau erbyn 30 Ebrill 2019. Y Cyng. Dafydd Meurig am holi sut mae mesur teithiau bws sydd bellach ddim yn rhedeg.

Cyflwynwyd – e-bost gan Un Llais Cymru. Manylion aelodaeth blyneddol 2019-20. Penderfynwyd nad oedd y Cyngor am ymaelodi am y flwyddyn yma.

7. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Partneriaeth Ogwen- pawb wedi derbyn adroddiad ysgrifenedig.

Cyfarfod cyhoeddus ar gyfer ymgynghori cae pel-droed Talybont wedi ei drefnu ar gyfer 19.02.19, yn Ffestri Bethlehem, Talybont.

Cyfarfod safle gyda Simon Roberts, Peiriannydd Cynorthwyol Cyngor Gwynedd –

12 Chwefror 2019 am 11.00 yb. Pawb wedi derbyn adroddiad ysgrifenedig o'r cyfarfod gan y Cyng. Evan Jones. Y Clerc i chwilio am ddogfennau sy'n ymwneud â throsglwyddiad a pherchnogaeth y cae chwarae.

Simon Roberts am gysylltu â Stad Penrhyn i gyflawni eu dyletswyddau o agor a glanhau'r ffosydd.

8. Rhoddion

Trafodwyd y rhestr ceisiadau. Penderfynwyd ar y swm y byddai pob mudiad yn ei dderbyn.

Llais Ogwan	£100.00
Clwb Henoed Llanllechid	£50.00
Talgai Hall Trust	£100.00
Cwmni Llechan Las	£50.00
Ysgol Feithrin Llanllechid	£100.00
Siop Ogwen	£50.00
Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen	£50.00
Dawns i Bawb	£50.00
Nant Ffrancon Brownies	£50.00
Clwb Rygbi Bethesda	£100.00
Eisteddfod Genedlaethol Cymru	£50.00
Canolfan Lôn Abaty	£50.00
Clwb Criced a Bowlio	£50.00
Carers Trust	£100.00
Ffermwyr Ifanc Eryri	£50.00

9. Penderfyniadau Cynllunio:

Dim penderfyniadau

Ceisiadau Cynllunio: (*Y Cyng. Jên Morris wedi datgan diddordeb*)

NP3/21/LB61D

Tan y Garth Bach, Gerlan

Caniatad Adeilad Rhestredig i newid ffenestri tô gyda ffenestri tô math cadwraeth.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

10. Materion Brys

Sbwriel – yn cael ei daflu i'r cae o 'Gypsy Corner'. Y Cyng. Dafydd Meurig am hysbysu Cyngor Gwynedd.

Llwybr 18 – cwynion am gerddwyr sydd yn crwydro oddi ar y llwybrau o gwmpas Fferm Tyddyn Du, Gerlan. Y llwybr ar y ffin rhwng Cyngor Bethesda a Chyngor Llanllechid. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

Parc Main – llwybr o Llwyn Penddu at Bryn Eithin – y bont pren wedi rhoi ac yn y ffoes, felly y llwybr methu cael ei ddefnyddio.

Llwybr cyhoeddus yn Tan y Garth – draen o dan y ddaear wedi rhoi yn un o'r caeau, sy'n rhwystro'r llwybr cyhoeddus.

Bin halen – yr un uchaf ar Lôn y Bryn angen ei lenwi.

Grŵp Cymunedol Tal y bont – angen darparu ein manylion banc er mwyn derbyn yr arian sy'n weddill yn eu cyfrif.

Cyllid – angen newid y daenlen cyllid i adlewyrchu'r arian sydd wedi ei glustnodi ar gyfer prosiect y cae chwarae yn Tal y bont.

Lon Ddŵr – tyllau mawr yn y ffordd sy'n arwain at Y Llechan.

Y Cyng. Geraint Hughes eisiau diolch i'r Cyng. Dafydd Meurig am ei gefnogaeth.